Met Office

Ystod oedran: 5-7

# Rhagweld y tywydd



# Rhagymadrodd

**Trosolwg**

## Helô, Meteorolegydd y dyfodol!

## Sut wnaethoch chi ddewis pa ddillad i'w gwisgo heddiw? A wnaethoch chi neu'ch teulu a'ch ffrindiau wylio rhagolygon y tywydd i benderfynu?

Bob dydd, mae Meteorolegwyr yn y Swyddfa Dywydd yn darparu rhagolygon tywydd i'n cadw'n ddiogel, gan roi gwybod i ni pryd y gallai hi fwrw glaw, bwrw eira neu fod yn dywydd gwych ar gyfer hufen iâ. Iym! Cymerwch rôl cyflwynydd tywydd gyda chymorth ein Meteorolegwyr yn y Swyddfa Dywydd - Aidan, Alex, Annie a Helen. Allwch chi helpu i gyflwyno rhagolygon tywydd ar gyfer eich hoff dymor?

**01**

### Beth yw tywydd?

Dechreuwch trwy ddangos lluniau i'r grŵp (sleid 2-5) o wahanol amodau tywydd yn y DU. Trafodwch gyda'r grŵp beth sy'n digwydd ym mhob llun neu fideo. Ydyn nhw'n meddwl ei fod yn ddiwrnod heulog, yn ddiwrnod glawog ac ati.

Dywedwch wrth y grŵp mai'r tywydd yw'r hyn rydym yn ei deimlo y tu allan pan ydyn ni'n mynd allan drwy'r drws i'r maes chwarae neu allan o'n cartref. Mae'r tywydd yn newid bob dydd yn y DU, lle rydyn ni'n byw.

Mae gwybod sut fydd y tywydd pan ydyn ni'n mynd allan yn bwysig iawn wrth gynllunio gweithgareddau. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwisgo'r dillad cywir ac yn cadw'n ddiogel.

### Amser sydd ei angen

10 munud

### Deunyddiau sydd eu hangen

- YouTube access
- Fideos rhagolwg tywydd y Swyddfa Dywydd ar gyfer y Gwanwyn, yr Haf, yr Hydref a'r Gaeaf:
  Gwanwyn - https://youtu.be/TrKFagMo90Q
  Haf - https://youtu.be/tE0R-T4eCqU
  Hydref - https://youtu.be/NTWLU82QWuk
  Gaeaf - https://youtu.be/EJofAnvp_3w
- Dec sleidiau Rhagweld y Tywydd gyda mapiau, symbolau a graffeg
- (Dewisol) Symbolau tywydd lliwio mewn

# Camau gweithgaredd

## 02 Beth yw rhagolwg tywydd?

10 munud

Gofynnwch i'r grŵp feddwl am ffyrdd y gallen nhw ddarganfod sut fydd y tywydd yfory. Cymerwch ychydig o awgrymiadau.

Y gobaith yw y bydd y grŵp wedi gweld rhagolygon tywydd, ar y teledu neu apiau, y gallai aelodau'r teulu fod wedi'u gwylio gyda nhw.

Dywedwch wrth y grŵp fod gan y Swyddfa Dywydd wyddonwyr pwysig o'r enw **Meteorolegwyr (os yw'n bosibl, gofynnwch i'r grŵp ailadrodd y gair yn uchel oherwydd gall fod yn anodd ei ynganu!)** sy'n helpu pobl i ddeall pa dywydd sy'n mynd i ddigwydd bob dydd ar draws y DU, lle rydyn ni'n byw, a hyd yn oed ar draws y byd i gyd. Gall y Meteorolegwyr hyn ddarparu fideo i ni o'r enw rhagolwg tywydd.

Eglurwch i'r grŵp fod rhagolwg tywydd yn dweud wrthym beth sy'n debygol o ddigwydd mewn ychydig oriau, yn hwyrach heddiw, yfory, neu hyd yn oed yr wythnos nesaf. Gall hefyd ein helpu i wneud penderfyniadau ar beth i'w wisgo neu sut rydyn ni'n bwriadu treulio ein diwrnod gyda'n ffrindiau a'n teulu.

Os edrychwch allan o'ch ffenest, efallai y byddwch chi'n meddwl y gallwch chi ddweud beth yw'r tywydd. Gallai fod yn heulwen llachar ac awyr glir heb gymylau, ond pan ewch allan i chwarae, gallai fod yn llithrig, yn rhewllyd ac yn teimlo'n oer iawn, iawn!

Gofynnwch i'r grŵp: A fyddai'n syniad da gwisgo'ch sandalau pan mae'n oer iawn a rhewllyd y tu allan? Gobeithio ddim, gan y byddech chi'n mynd yn oer, bysedd traed rhewllyd!

Gall gwrando ar y rhagolwg tywydd ein cadw'n ddiogel...a chael bysedd traed cynnes ar ddiwrnodau rhewllyd.

## 03 Sut mae'r Swyddfa Dywydd yn rhagweld y tywydd

10 munud

Ond sut mae'r Swyddfa Dywydd yn rhagweld y tywydd? Dywedwch wrth y grŵp na all **Meteorolegwyr** yn y Swyddfa Dywydd ddweud wrthym **(rhagweld)** sut fydd y tywydd os nad ydyn nhw'n gwybod beth mae'n ei wneud ar hyn o bryd. Mae fel ceisio chwarae pêl-droed yn y maes

# Camau gweithgaredd

chwarae - allwch chi ddim cicio pêl i'ch ffrind oni bai eich bod chi'n gwybod ble mae hi!

Yn gyntaf, mae rhai o'r bobl sy'n gweithio yn y Swyddfa Dywydd yn cymryd llawer o arsylwadau tywydd, gan ddefnyddio llawer o wahanol offer (dangoswch sleidiau 6+7).

Mae'r offer hwn yn dweud wrth Feteorolegwyr pa mor wyntog yw hi, pa mor gynnes yw'r tu allan, a faint o law sy'n disgyn mewn gwahanol leoedd ar draws y DU.

Yna mae'r holl wybodaeth yma'n cael ei anfon at **ARCH**gyfrifiadur anhygoel sy'n gwneud llawer o symiau a chyfrifiadau gan ddefnyddio rhifau mawr, i roi syniad i'r Meteorolegwyr o sut fydd y tywydd yfory neu dros y dyddiau nesaf.

Rydyn ni'n mynd i edrych ar ragolygon tywydd gan y Swyddfa Dywydd.

**Gweithgaredd ychwanegol** - os hoffech chi wneud eich offer tywydd eich hun, ewch i weithgareddau DIY ein Swyddfa Dywydd i Ysgolion

## 04 Fideo rhagolwg tywydd

5 munud

Dewiswch fideo tymor i wylio gyda'r grŵp. Gallech chi wylio'r pedwar.

Gofynnwch i'r grŵp wrando ar y geiriau ac edrych ar y symbolau tywydd a ddefnyddir gan y cyflwynydd ym mhob fideo. Bydd y grŵp yn defnyddio'r geiriau a'r symbolau hyn yn eu rhagolygon eu hunain yn ddiweddarach.

**Cwestiynau a awgrymir**

Sut rydyn ni'n gwybod pryd y bydd hi'n bwrw glaw, yn gymylog neu'n heulog yn y rhagolwg tywydd?

Pa symbolau tywydd allwch chi eu gweld?

Pa eiriau mae'r cyflwynwyr yn eu defnyddio i ddisgrifio'r tywydd?

Beth mae'r cyflwynwyr yn ei wisgo yn y fideo ar gyfer Gwanwyn/Haf/Hydref/Gaeaf?

Ble oedd eu lleoliad ar y map? Gogledd/De/Dwyrain/Gorllewin? Gadewch i ni ddefnyddio'r cwmpawd i ddarganfod.

# Camau gweithgaredd



## 05 Creu eich rhagolwg

15 munud

Dywedwch wrth y grŵp eu bod yn mynd i helpu'r Swyddfa Dywydd drwy ddarparu eu rhagolygon tywydd eu hunain ar gyfer y Gwanwyn, yr Haf, yr Hydref neu'r Gaeaf.

Rhannwch y grŵp yn barau neu'n grwpiau bach a phenderfynwch ar gyfer pa dymor yr hoffech chi iddyn nhw gyflwyno eu rhagolwg.

Mae dau opsiwn ar gyfer cynhyrchu eu rhagolygon:

- Ar bapur – Argraffwch fap y DU (sleid 16) mewn maint A2 a thorrwch allan y symbolau tywydd (sleid 13) i'w glynu ar y map.
- Ar fwrdd gwyn - Defnyddiwch y graffeg ar gyfer pob un o'r gwahanol dymhorau (sleidiau 9-12). Tafluniwch y sleid o'ch dewis ar fwrdd gwyn rhyngweithiol neu sgrin fawr (mae symbolau i'w hychwanegu ar sleid 14).

DS – rydym wedi darparu dau fap DU ychwanegol i chi ddewis rhyngddyn nhw (sleidiau 15 ac 16).

15 munud (os oes amser)

**Gweithgaredd ychwanegol** - Ewch â'r grŵp allan, os yn bosibl, i wneud rhai arsylwadau tywydd cyn iddyn nhw gyflwyno eu rhagolygon. Siaradwch â'r grŵp am sut beth yw'r tywydd a sut deimlad yw hi. Gofynnwch i'r grŵp a ydyn nhw'n gwybod ym mha dymor maen nhw.

15 munud

Gan ddefnyddio symbolau tywydd y Swyddfa Dywydd fel arweiniad, anogwch y myfyrwyr i greu eu symbolau tywydd eu hunain i gynrychioli'r gwahanol fathau o dywydd. Rydyn ni hefyd wedi rhoi symbolau tywydd gwag i chi y gall y myfyrwyr eu lliwio.

# Camau gweithgaredd



## 06 Cyflwynwch eich rhagolwg

Rhowch gyfle i bob grŵp gyflwyno eu rhagolygon tywydd i'r grŵp mwy. Gallech chi hyd yn oed gofnodi eu rhagolygon i chwarae yn ôl. Anogwch nhw i ddefnyddio'r mat geiriau tywydd a ddarperir ar gyfer cymorth (sleid 18). Gallen nhw hefyd ychwanegu rhai awgrymiadau diogelwch ar gyfer gwahanol dymhorau ac amodau tywydd. Er enghraifft, aros y tu fewn yn ystod storm fellt a tharanau neu gofio gwisgo eli haul pan ywhi'n heulog y tu allan.

Gweithgaredd estyn: Os hoffech chi ddysgu rhagor am swydd Meteorolegydd yn y Swyddfa Dywydd, cymerwch olwg ar ein fideo 'Diwrnod ym mywyd'.

Os hoffech chi rannu eich rhagolygon gyda ni, tagiwch ni @metofficelearn.

5 munud i bob grŵp

Mae'r Swyddfa Dywydd yn darparu cynnwys addysg am ddim i gefnogi pobl ifainc i fod yn barod ar gyfer sut bydd y tywydd a newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnyn nhw a'u cymunedau.
Dysgwch ragor yma: **www.metoffice.gov.uk/schools**
© Crown Copyright 2024, Met Office 02641